BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO
CARDIFF & VALE REGIONAL PARTNERSHIP BOARD


VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

CARDIFF CAERDYDD

GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

# Gwella Gofal Integredig: Effaith y Summary Care Viewer (SCV) yng Ngwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro (VCRS)




Mae'r Summary Care Viewer (SCV), sef cymhwysiad darllen yn unig sy'n dwyn ynghyd ddata allweddol iechyd a gofal cymdeithasol mewn un golwg syml ac effeithlon, wedi'i fabwysiadu'n ddiweddar gan Wasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro (VCRS), gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig sydd wedi'i leoli yn Ysbyty'r Barri.

Mae'r VCRS yn cefnogi unigolion yn eu cartrefi eu hunain, gan eu helpu i gynnal eu hannibyniaeth a lleihau'r angen am dderbyniadau i'r ysbyty a gwasanaethau gofal hirdymor.

## Gwell Effeithlonrwydd a Diogelwch

Yn flaenorol, roedd yn rhaid i staff fewngofnodi i dair system ar wahân a llywio rhyngddynt er mwyn cael darlun cyflawn o ofal unigolyn. Bellach, drwy un mewngofnodi i'r SCV, gallant gael mynediad cyflym at wybodaeth hanfodol megis rhybuddion a hysbysiadau i lywio cynllunio gofal diogel, manylion y staff a'r timau sy'n ymwneud â gofal yr unigolyn ledled Caerdydd a Bro Morgannwg, pecynnau gofal presennol, ac amserlen y gofal sy'n cael ei ddarparu yn y cartref.

## Canlyniadau Cynnar: Arbed Amser a Gofal Mwy Diogel

Mae adborth gan staff wedi bod yn hynod gadarnhaol. Mae'r SCV eisoes yn gwella effeithlonrwydd, yn lleihau'r amser a dreulir yn chwilio am wybodaeth, ac yn sicrhau bod timau gofal yn cael mynediad amser real at rybuddion hanfodol. Mae hyn yn eu helpu i gynllunio a darparu gofal sy'n fwy diogel ac yn fwy cydgysylltiedig.

# Gwella Gofal Integredig: Effaith y Summary Care Viewer (SCV) yng Ngwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro (VCRS)

## Beth Nesaf? Ehangu Integreiddio Digidol



Mae rhaglen Rhanbarth Gofal Digidol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i ehangu galluoedd y SCV. Bydd datblygiadau yn y dyfodol yn cynnwys integreiddio data gan Gyngor Caerdydd i ddarparu trosolwg hyd yn oed yn fwy cynhwysfawr o ofal, ac ymestyn cofnodion gofal digidol i wasanaethau lle gallant ysgogi rhagor o effeithlonrwydd ac, yn bwysicaf oll, wella canlyniadau i unigolion.

**Mae'r SCV yn enghraifft bwerus o'r ffordd y mae arloesedd digidol yn trawsnewid y ffordd y caiff gofal ei ddarparu ledled Caerdydd a Bro Morgannwg, gan wneud gofal integredig yn fwy deallus, yn gyflymach ac yn fwy diogel i weithwyr proffesiynol a defnyddwyr gwasanaethau fel ei gilydd.**

*"Mae hon yn brosiect mor gyffrous a hwn fydd y cyntaf o'i fath yng Nghymru. Mae fy nhîm wedi cael y cyfle gwych hwn i weithio gyda'r datblygwyr fel defnyddwyr terfynol ers sefydlu'r Shared Care Record, ac rydym yn gyffrous i weld sut y bydd yn parhau i ddatblygu ac o fudd i ddinasyddion Bro Morgannwg. Rwy'n teimlo y bydd yn drawsnewidiol ar sawl lefel. Bydd yn newid y ffordd rydym yn cydweithio ac yn integreiddio gwasanaethau, yn gwella cyflymder a chywirdeb y ffordd rydym yn prosesu ac yn rhannu data, ond yn bwysicaf oll bydd yn ein galluogi i leihau risgiau clinigol, cadw'r cyhoedd yn ddiogel a sicrhau eu bod yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir."*



Rebecca Jorgensen-Corfield -Rheolwr Gweithredol Integredig, Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro